Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth?** Ymchwiliad dilynol i ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru

Gorffennaf 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth? Ymchwiliad dilynol i ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru

Gorffennaf 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

## Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cefndir** .......... **11**

Casglu tystiolaeth .......... 11

Cydweithio .......... 11

Cylch Gorchwyl .......... 12

Addysg a Gofal Cynnar a gynigir yng Nghymru .......... 12

**2. Yr angen am ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn** .......... **15**

Symleiddio system or-gymhleth nad yw'n cael ei deall yn dda .......... 18

Ein barn ni .......... 20

Darpariaeth integredig .......... 22

Tâl a statws y gweithlu .......... 24

Cymwysterau a hyfforddiant .......... 26

Ein barn ni .......... 29

**3. Hygyrch i bawb** .......... **32**

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ofal plant .......... 32

Darpariaeth anabledd .......... 34

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg .......... 36

Gofal plant lle a phryd mae ei angen .......... 37

Oriau .......... 38

Ein barn ni .......... 39

**4. Fforddiadwy a chynaliadwy** .......... **43**

Manteision buddsoddi mewn addysg a gofal plentyndod cynnar ..... 43

Costau sy'n wynebu rhieni a sut mae'r rhain yn effeithio ar gydraddoldeb rhywedd ..... 44

Ffyrdd o wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy ..... 46

Ariannu darparwyr i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant ..... 49

Ariannu Dechrau'n Deg ..... 53

Ein barn ni ..... 53

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ..... 57**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 59**

Gwybodaeth ychwanegol ..... 59

# Rhagair y Cadeirydd


Mae'n debyg mai addysg gynnar gynhwysfawr o safon uchel yw'r ymyrraeth fwyaf drawsnewidiol y gall unrhyw lywodraeth ei gwneud. Ystyriwch Estonia, gyda phoblogaeth o 1.1 miliwn, bellach y wlad sy'n perfformio orau yn Ewrop ar restr profion PISA.

Mae gan Lywodraeth Cymru dair elfen i'w darpariaeth cyn-ysgol:

- Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi'i thargedu at y cymunedau mwyaf difreintiedig lle mae'r 2.5 awr y dydd o ofal plant yn cael ei ehangu i gynnwys pob plentyn yn y pen draw, sydd o dan ddwy flwydd oed.
- Mae pob plentyn tair i bedair oed yn cael cynnig o leiaf ddwy awr y dydd o addysg feithrin ond mae hyn yn llai na phlant mewn rhannau eraill o'r DU.
- Cyflwynwyd y Cynnig Gofal Plant yn 2017 ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos am ddim llai na'r Isafswm Cyflog ac ers hynny wedi'i ehangu i rai teuluoedd mewn addysg neu hyfforddiant. Mae ffigyrau Llywodraeth Cymru ei hun yn dangos bod y rhan fwyaf o'r teuluoedd sy'n elwa o hyn eisoes yn defnyddio gofal plant cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno. Tynnodd ystod o arbenigwyr sylw at y ffath bod eithrio plant ar sail statws gwaith eu rhiant/gofalwr yn ehangu'r bwlch cyrhaeddiad amddifadedd.

Mae rhieni a darparwyr yn ei chael yn anodd iawn llywio drwy'r dryswch hwn o ddarpariaeth a dywedwyd wrth y Pwyllgor fod llawer yn methu â manteisio ar yr hyn y mae ganddynt yr hawl iddo.

Rydym yn ymwybodol iawn ei bod yn heriol ehangu gofal plant o safon. Ni roddir y tâl dyledus i'r swydd hynod bwysig hon sy'n addysgu'r plant ieuengaf ac ni chaiff ei gwerthfawrogi ddigon, ac mae arolwg Blynyddoedd Cynnar Cymru (Gweler Tud 52) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw chwarter y darparwyr yn credu y gallant barhau am flwyddyn arall, gan godi i 4 o bob 5 ymhen 2 flynedd. Mae honno'n her ariannol ac yn her o ran datblygiad proffesiynol, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hi ar frys cyn i'r system gyfan chwalu.



**Jenny Rathbone**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Er mwyn mynd i'r afael â phryderon hirsefydlog bod ei rhaglenni cymorth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn rhy gymhleth a digyswllt, gan arwain at niferoedd llai na boddhaol yn manteisio arnynt, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cymryd camau pendant i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ei rhaglenni cymorth addysg a gofal plentyndod cynnar, ac adolygu effeithiolrwydd ei ffyrdd cyfredol o hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd.
- Ymrwymo i grynhoi'r gwahanol ffrydiau cyllido gofal plant yn un ffrwd ariannu, a datblygu cynlluniau i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2025.
- Defnyddio systemau presennol fel sail ar gyfer creu 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth gofal plant a gwneud cais am gymorth gofal plant. ........................................Tudalen 21

**Argymhelliad 2.** O fewn y chwe mis nesaf, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer ei Chynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn cymryd y camau angenrheidiol i fodloni uchelgeisiau'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Dylai'r cynllun cyflawni amlinellu camau gweithredu clir gydag amserlen ar eu cyfer, sy'n canolbwyntio ar ddarparu system chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar symlach a mwy integredig sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ogystal â'r meysydd presennol sy'n cael eu cwmpasu gan y cynllun mewn perthynas â'r gweithlu, ansawdd a mynediad. ........................................Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Er mwyn gwella cyflog ac amodau gwaith ehangach yn y sector gofal plant, a chynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig, dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn cael digon o gyllid i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff a gyflogir yn y sector gofal plant, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025.

- Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gefnogi'r sector i wella amodau gwaith ehangach a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor gydag enghreifftiau clir o sut y mae'r rhain wedi gwella mewn 12 mis.

- Blaenoriaethu cynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig o fewn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys dulliau newydd o gyflawni hyn, tra'n cadw hefyd y llwybrau galwedigaethol traddodiadol i'r sector. Dylai hefyd gymryd camau i symleiddio gofynion cymwysterau.

- Bwrw ymlaen â'i chynlluniau i fynnu bod y gweithlu gofal plant a chwarae yn cael ei gofrestru, gyda'r nod o gyflwyno cofrestru cyn diwedd y Chweched Senedd. .......................................................................................................Tudalen 31

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i fynd i'r afael â'r risg y bydd ei chynlluniau cymorth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn gwaethygu anghydraddoldebau sy'n wynebu plant sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn gweithio drwy:

- Ymestyn darpariaeth a ariennir ar gyfer pob plentyn 3-4 oed wrth ehangu unrhyw ofal plant yn y dyfodol, yn hytrach nag eithrio plant o deuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cyflogaeth ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

- Ystyried ai'r meini prawf cymhwystra presennol y gall rhieni ennill hyd at £100,000 yr un yw'r terfyn uchaf cywir o ran cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

- Cymryd camau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn targedu ardaloedd mwy difreintiedig i ddechrau wrth ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. ........................................Tudalen 40

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth frys, yn cymryd camau i sicrhau bod digon o leoedd a chyllid ar gael i bob plentyn ag anghenion ychwanegol neu gymhleth drwy:

- Weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector i ganfod amserlenni realistig ar gyfer gwarantu y bydd plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cael

mynediad at ddarpariaeth gofal plant, ac ymrwymo i ariannu a gweithredu'r warant honno.

- Nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o ffrydiau cyllido i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac i leihau cymhlethdod cael gafael ar y cronfeydd hyn.

- Derbyn a gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â gofal plant yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 'A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'. ........................................Tudalen 42

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gynyddu nifer yr ymarferwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg, a chyfleoedd i ymarferwyr gymhwyso drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai wneud hyn drwy ddarparu cyllid digonol i alluogi 300 o staff newydd i gymhwyso bob blwyddyn, a gweithio gyda darparwyr addysg bellach a phrentisiaethau i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg. ........................................ Tudalen 42

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu darpariaeth gofal plant ddi-dor a fforddiadwy drwy gyllid canlyniadol Barnett y bydd yn ei gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr. Dylai nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hyn cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26. ........................................ Tudalen 54

**Argymhelliad 8.** Er mwyn mynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch fforddiadwyedd gofal plant, dylai Llywodraeth Cymru:

- Flaenoriaethu'r broses o gyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed drwy ddyrannu digon o gyllid i hyn gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl, gan osod targed ar gyfer y niferoedd a fydd yn elwa erbyn diwedd mis Mawrth 2026, a darparu adroddiad ar gynnydd i'r Senedd.

- Gweithio gyda'r sector i ddatblygu llwybr sy'n nodi camau yn y dyfodol i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, fel y mae cyllid a chyfyngiadau ymarferol eraill yn eu caniatáu. Nod hirdymor y llwybr hwn ddylai fod i weithio tuag at ddarparu darpariaeth gofal plant gyffredinol. ........................................Tudalen 55

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar frys i wella cynaliadwyedd ariannol y sector drwy:

- Wneud cyhoeddiad ar y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26 erbyn diwedd mis Hydref 2024. Yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth rydym wedi'i derbyn, rydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cynnydd hwn.
- Symud i adolygiadau blynyddol o gyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant, a sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn yn cymryd ymagwedd hyblyg sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol megis chwyddiant, cyfraddau tâl a chynhyrchiant. .........................Tudalen 56

# 1. Cefndir

**1.** Mae hwn yn ddilyniant i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym mis Ionawr 2022: Gwarchod y dyfodol - y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio. Gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl ar dudalen yr ymchwiliad.

## Casglu tystiolaeth

**2.** Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan amrywiaeth o randdeiliaid. Casglwyd safbwyntiau rhieni a gweithwyr rheng flaen gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ac ymweliadau Aelodau â lleoliadau gofal plant ledled Cymru er mwyn deall yr heriau sy'n wynebu staff rheng flaen a chanfod enghreifftiau o arfer da.

**3.** Gan adeiladu ar ein gwaith blaenorol, a edrychodd ar arfer da yn Norwy a Sweden, roeddem yn ddiolchgar am y dystiolaeth a gafwyd gan arbenigwyr o Ganada, Estonia a phob cwr o'r DU.

## Cydweithio

**4.** Mae rhai agweddau ar ein cylch gorchwyl yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd, felly roeddem yn falch o gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw yn ein gwaith. Daeth Jayne Bryant AS i'r ddwy sesiwn dystiolaeth gyntaf. Yn dilyn ei phenodiad i'r Llywodraeth, ymunodd ei holynydd fel Cadeirydd y Pwyllgor, Buffy Williams AS, â ni am weddill yr ymchwiliad. Rhoddodd Jayne Bryant AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, dystiolaeth ar 13 Mai 2024.[1]

**5.** Penodwyd Julie Morgan AS yn aelod o'r Pwyllgor hwn ar 23 Ebrill 2024 ond ni fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn, yng ngoleuni ei chyfrifoldebau gweinidogol blaenorol.

[1] Daeth Sarah Murphy AS yn Weinidog y Blynyddoedd Cynnar ac Iechyd Meddwl ym mis Gorffennaf 2024 ychydig cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

**6.** Gellir gweld manylion yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

## Cylch Gorchwyl

**7.** Cafodd ein cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad dilynol hwn ei lywio gan waith blaenorol y Pwyllgor ar ofal plant a chyflogaeth rhieni, ac ar fynd i'r afael â thlodi plant. Gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl ar dudalen yr ymchwiliad.

## Addysg a Gofal Cynnar a gynigir yng Nghymru

**8.** Mae pob plentyn yng Nghymru â'r hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o ofal meithrin Cyfnod Sylfaen o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd tan y byddant yn dechrau yn yr ysgol yn llawn amser.[2]

**9.** Yn 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynnig Gofal Plant ledled Cymru. Mae'n cynnwys **30 awr o ofal plant yr wythnos am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn** i deuluoedd cymwys sy'n gweithio.[3] Mae'r 30 awr yn cynnwys o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg feithrin ac uchafswm o 20 awr yr wythnos o ofal plant. Mae'r meini prawf cymhwysedd[4] ar gyfer y cynllun yn cynnwys yr angen i bob rhiant yn yr aelwyd fod yn gweithio, ac yn ennill llai na £100,000 y flwyddyn, ond yn ennill o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r isafswm cyflog am eu hoedran am o leiaf 16 awr yr wythnos.

**10.** Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn darparu **addysg feithrin am ddim i blant 2 a 3 oed cymwys am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos** (12.5 awr yr wythnos).[5] Mae hyn ar gael am 39 wythnos y flwyddyn, gydag o leiaf 15 o sesiynau yn cael eu darparu yn ystod gwyliau'r ysgol.

**11.** Mae Dechrau'n Deg yn cael ei ehangu'n raddol i ddarparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i bob plentyn (cymwys) 2-3 oed.[6] Cafodd yr ymrwymiad hwn ei wneud fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio[7] rhwng Llywodraeth

[2] Llywodraeth Cymru, Addysg feithrin ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru – Meithrin y Cyfnod Sylfaen: Canllawiau i rieni a gofalwyr
[3] Llywodraeth Cymru, Cael 30 awr o ofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed
[4] Llywodraeth Cymru, Cael 30 awr o ofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed
[5] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Dechrau'n Deg
[6] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Dechrau'n Deg
[7] Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio: 2021

Cymru a Phlaid Cymru a fu ar waith rhwng Tachwedd 2021 a Mai 2024, ac sydd bellach yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.[8] Bydd ail gam yr ehangu yn para tan fis Mawrth 2025.[9] Bydd y trydydd cam yn dechrau ym mis Ebrill 2025, ac unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd pob plentyn 2-3 oed yn gallu derbyn y ddarpariaeth hon.[10]

**12.** Yn ogystal â darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU yn darparu ad-daliadau treth am ofal plant[11] mewn lleoliadau a gynigir gan ddarparwyr preifat. Am bob £8 y mae rhiant / gwarcheidwad yn ei dalu, mae Llywodraeth y DU yn cyfrannu £2.

**13.** Gall teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol adhawlio hyd at 85% o gostau gofal plant os ydynt yn gweithio neu wedi cael cynnig swydd.[12] Mae hynny'n gyfyngedig i uchafswm o £1,014.63 y mis ar gyfer un plentyn, neu £1,739.37 y mis ar gyfer 2 blentyn neu ragor.

[8] Llywodraeth Cymru, Rhaglen lywodraethu: diweddariad
[9] Llywodraeth Cymru, Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol
[10] Llywodraeth Cymru, Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol
[11] Llywodraeth y DU, Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth
[12] Llywodraeth y DU, Credyd Cynhwysol a gofal plant



***Ffigur 1 Merched yn mwynhau darpariaeth awyr agored yn Enfys Fach, Aberhonddu***

# 2. Yr angen am ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn

**14.** Dadleuodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar (y Gweinidog), Jayne Bryant AS, fod ymagwedd Llywodraeth Cymru at chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar[13] yn seiliedig "ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda'r plentyn a datblygiad y plentyn yn ganolog iddo". Dywed y Gweinidog fod y dull hwn "yn golygu datblygu a chyflwyno dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy ddarparu gofal plant o ansawdd uchel yn seiliedig ar chwarae a chyfleoedd addysg i bob babi a phlentyn ifanc 0-5 oed."[14]

**15.** Dywedodd Dr David Dallimore fod dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn absennol ar draws y DU. Cyfeiriodd at yr agwedd gyfannol at blentyndod sydd wedi'i mabwysiadu yn y gwledydd Nordig:

> *"… childhood is valued in, perhaps, a different way and where children start school at a much later date, at a much later age, and the early years are valued as an intrinsic time for children to be children and to be valued as children, not as supporting the economic activity of their parents. Although, if we had a really good system that was able to support them and be able to allow children to be nurtured and encouraged and develop in ways that we know the early years can facilitate, then we could please everybody."*[15]

**16.** Pwysleisiodd Sarah Mutch o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yr angen i egluro beth yw'r rhaglen gofal plant, ac ar gyfer pwy y mae:

> *"Is it about offsetting costs to families, or is it more about the early intervention, in which case the sessional provision, and that intense dosage for some of our more vulnerable families and children? I think that sometimes the two purposes can work against each other, which is why we have a much more*

[13] Llywodraeth Cymru, Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar
[15] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 223

> *complex system than maybe we'd like. So, maybe it's the clarity on what is the purpose that would help to deliver a much simpler system."*[16]

**17.** Roedd Natalie Macdonald o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ddi-flewyn-ar-dafod am y sefyllfa bresennol:

> *"we see the purpose of childcare as getting parents back into work. Actually, it needs to be the complete reverse; we need to have quality universal childcare, and if you have that, and if parents are able to engage with that, they will go into work."*[17]

**18.** Crynhodd Janet Kelly o Sparkle Cymru y sefyllfa bresennol:

> *"… we talk a lot about being child and family centred…It's such an easy thing to say and such an easy thing to write, and I do not believe, fundamentally, that we are child and family centred."*[18]

**19.** Dywedodd pensaer y rhaglen Cychwyn Cadarn, Naomi Eisenstadt, fod gofal plant yn ymwneud â'r plentyn cyfan, nid y 'dysgwr' yn unig. O safbwynt y plentyn, mae'n bwysig cydnabod mai dyma'r lle cyntaf, fel arfer, y tu allan i gartref y teulu, lle mae plant yn ymgysylltu â'u cymuned a bywyd dinesig[19].

**20.** Gwelwyd sut y gall dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn edrych ar waith yn ystod ymweliadau â lleoliadau gofal plant.

---

[16] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 382
[17] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 153
[18] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 226
[19] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 154






***Ffigur 2 a 3 Darpariaeth dan do ac awyr agored yn The Venture, Wrecsam***

**21.** Mae Venture yn Wrecsam yn darparu gofod diogel, tawel a hapus i blant gydag ymdeimlad cryf o gymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu yn byw mewn fflatiau ac nid oes ganddynt fynediad i erddi. Gwelodd Carolyn Thomas AS y pwyslais arbennig a roddir ar chwarae yn yr awyr agored a chysylltu â byd natur.





***Ffigur 4 a 5 Cerflunio a darpariaeth ysgol goedwig yn Enfys Fach, Aberhonddu***

**22.** Gwelodd Jenny Rathbone AS bwyslais trwm ar ddysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ym meithrinfa Enfys Fach yn Aberhonddu, gyda darpariaeth dan do ac awyr agored ddi-dor. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda cherflunydd i wneud stoliau pren wedi'u dylunio gan bob plentyn.

**23.** Esboniodd Maria Jürimäe o Brifysgol Tartu sut mae lleoliadau 'kindergarten' yn Estonia wedi dychwelyd i fabwysiadu egwyddorion Montessori.[20] Mae'r dull hwn yn darparu'r amgylchedd i gefnogi llwybr datblygiad personol pob plentyn; caiff y cwricwlwm cyfan ei arwain gan y plentyn gydag oedolion yn chwarae rhan arweiniol.

## Symleiddio system or-gymhleth nad yw'n cael ei deall yn dda

**24.** Dywedodd arbenigwyr wrthym fod y diffyg gweledigaeth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar wedi arwain at ddarpariaeth or-gymhleth ac ystod o gynlluniau cymorth gyda meini prawf cymhwystra gwahanol, gyda rhai ohonynt yn amrywio, yn dibynnu ar lle mae'r plentyn yn byw.[21] Roedd rhai tystion o'r farn fod hyn wedi arwain at system nad yw'n gweithio i rieni na darparwyr, a bod diffyg dealltwriaeth ymhlith rhieni yn rhwystr iddynt fanteisio ar y ddarpariaeth.

**25.** Dywedodd Sarah Coates o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru mai'r prif bryder oedd:

> *"… just how complex it is at the moment for parents and providers. We've got so many different funded approaches, and approaches that we have across Wales, it's very complex to understand."*[22]

**26.** Awgrymodd Sefydliad Bevan nad yw tua hanner y rhieni cymwys yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, a bod hyn oherwydd argaeledd amrywiol gofal plant a'r system dameidiog a chymhleth, gan ddweud:

> *"Gyda thri chynllun ar gael, dydy hi efallai ddim yn syndod nad ydy rhieni yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo. Mae'r ffaith bod rhaid i rieni sy'n ymwybodol o'r cynlluniau y*

[20] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 219
[21] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Dechrau'n Deg
[22] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 308

*maen nhw'n gymwys i'w cyrchu, gyflwyno nifer o geisiadau i gyrchu eu hawliau yn gwneud y broblem yn waeth ac yn fwy cymhleth."*[23]

**27.** Pwysleisiodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws bwysigrwydd gwybod rhagor am eu hawliau o flaen llaw.

> *"Mae angen i bobl wybod am y cymorth hyd yn oed cyn iddyn nhw gael plant. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael yn eang ym mhob man. Mae angen iddi fynd drwy gyrff statudol, mae angen iddi fynd drwy'r trydydd sector, drwy brifysgolion."*
>
> *Cyfranogwr grŵp ffocws*

> *"Pan fydd plant yn cael eu geni, cofrestrwch nhw mewn ffordd benodol fel bod rhieni'n cael gwybod bod cymorth ar gael gyda gofal plant mewn ychydig flynyddoedd y gallai fod ganddyn nhw hawl iddo."*
>
> *Cyfranogwr grŵp ffocws*

**28.** Roedd Natalie Macdonald a Hayli Gibson ymhlith llawer o dystion a oedd yn galw am un system gyllido:

*"… a more universal funding system that's almost like a one-stop shop— as the child progresses you're able to access that— and, I think, simplifying that system for settings as well would make it easier for them to run them."*[24]

**29.** Mae Sefydliad Bevan eisiau i Lywodraeth Cymru ddatblygu un ffurflen gais ar gyfer pob un o'r tair rhaglen ECEC y gellir ymuno â nhw mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd ar hyn o bryd.[25]

---

[23] Sefydliad Bevan, Taclo anfantais trwy ofal plant yng Nghymru
[24] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 192, a 26 Chwefror 2024, paragraff 268
[25] Sefydliad Bevan, Taclo anfantais trwy ofal plant yng Nghymru

**30.** Awgrymodd Sarah Mutch y gallai'r system ddigidol ledled Cymru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant fod yn fan cychwyn ar gyfer symleiddio, gan ddweud y gallai fod cyfle i greu system ganolog, o leiaf i bob awdurdod lleol.[26]

**31.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod angen i rieni a gofalwyr allu cael mynediad at ddarpariaeth yn y ffordd fwyaf syml posib.[27] Dywedodd wrthym:

> *"The childcare offer for Wales national digital service has shown the benefits that a single streamlined online platform can bring. We are aware of that. However, developing that digital solution is a complex process. It is important, if we are going down that road, to get it right. It would take significant time and investment, so we have to make sure that whatever we do in that space is right, and obviously balances the use of public funds."* [28]

## Ein barn ni

Mae pryderon eang bod ymagwedd Llywodraeth Cymru at addysg a gofal plentyndod cynnar yn ddryslyd ac yn dameidiog, ac nad oes gweledigaeth glir. Dywed Llywodraeth Cymru bod ei dull gweithredu yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn gosod y "plentyn a datblygiad y plentyn wrth ei wraidd", ac rydym yn cefnogi hynny'n gryf, ond hefyd yn cydnabod rôl ganolog gofal plant fforddiadwy i leihau anghydraddoldeb rhywedd. Dywedodd ein tystion wrthym nad yw dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn bob amser yn cael ei roi ar waith, a bod polisïau digyswllt ac amcanion croes yn cyfrannu at hyn. Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru yn fan cychwyn ar gyfer ymagwedd Llywodraeth Cymru, ond nid ydym o'r farn bod y camau sydd ynghlwm wrtho yn ddigonol i gyflawni uchelgeisiau'r Llywodraeth mewn perthynas â gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn a nifer o feysydd eraill y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Mae angen ailedrych ar y camau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd, drwy greu cynllun cyflawni newydd.

---

[26] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 381
[27] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 12
[28] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 13

Mae absenoldeb gweledigaeth polisi glir a chydlynol, ynghyd â lefelau gwael o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, yn golygu nad yw'r system bresennol yn cael ei defnyddio'n llawn gan rieni nac yn cyflawni'r canlyniadau posibl yn llawn. Mae'n hynod o siomedig, ddwy flynedd ers ein hymchwiliad cychwynnol, mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, yn ôl pob golwg. Rydym yn ailadrodd yr angen i Lywodraeth Cymru symud yn gyflym i ddatblygu system symlach sy'n gwneud cymorth yn haws i'w ddeall ac yn haws gwneud cais amdano.

**Argymhelliad 1.** Er mwyn mynd i'r afael â phryderon hirsefydlog bod ei rhaglenni cymorth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn rhy gymhleth a digyswllt, gan arwain at niferoedd llai na boddhaol yn manteisio arnynt, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cymryd camau pendant i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ei rhaglenni cymorth addysg a gofal plentyndod cynnar, ac adolygu effeithiolrwydd ei ffyrdd cyfredol o hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd.
- Ymrwymo i grynhoi'r gwahanol ffrydiau cyllido gofal plant yn un ffrwd ariannu, a datblygu cynlluniau i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2025.
- Defnyddio systemau presennol fel sail ar gyfer creu 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth gofal plant a gwneud cais am gymorth gofal plant.

**Argymhelliad 2.** O fewn y chwe mis nesaf, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer ei Chynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn cymryd y camau angenrheidiol i fodloni uchelgeisiau'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Dylai'r cynllun cyflawni amlinellu camau gweithredu clir gydag amserlen ar eu cyfer, sy'n canolbwyntio ar ddarparu system chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar symlach a mwy integredig sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ogystal â'r meysydd presennol sy'n cael eu cwmpasu gan y cynllun mewn perthynas â'r gweithlu, ansawdd a mynediad.

## Darpariaeth integredig

**32.** Amlygodd tystion bwysigrwydd addysg a gofal plentyndod cynnar integredig. Dywedodd Natalie Macdonald:

> *"… you can't separate care from education; they happen at the same time. And potentially, as we move forward in Wales, with looking at a more integrated early childhood education and care policy agenda and in practice, that's what we need to, I think: continue to bring that education and care together."*[29]

**33.** Pan ofynnwyd i Hayli Gibson beth roedd hi yn gredu oedd yn rhwystro Cymru rhag cael system sy'n gweithio i blant ac i rieni, soniodd am anawsterau cael dwy agenda bolisi. Dywedodd fod aelodau ei thîm yn Sir Benfro yn adrodd i dair cyfarwyddiaeth wahanol yn Llywodraeth Cymru a disgrifiodd y system fel un sydd wedi chwalu yn ddychrynllyd.[30]

**34.** Awgrymodd Dr Dallimore y byddai symud i ffwrdd o'r dull tameidiog o ymdrin â gofal plant o fudd i Gymru:

> *"A unified system would give consistency across many of the things that we've been talking about this afternoon: regulation, funding, the workforce, children with additional needs. And it would also help with things like the new Curriculum for Wales, in smoothing out those transitions between the early years and formal schooling, and a consistent pedagogy that straddles both as well."*[31]

**35.** Wrth drafod ffocws newydd y llywodraeth ar ysgolion bro, esboniodd Hayli Gibson fod ysgol ddwyieithog yn Sir Benfro wedi mynd ati i ddefnyddio lle gwag ar ôl i'r ysgol cyfrwng Cymraeg symud i adeilad newydd. O fis Medi, bydd y lle gwag yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gofal cofleidiol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.[32]

[29] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 151
[30] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 226
[31] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 274
[32] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 270

**36.** Clywodd Jenny Rathbone AS gan reolwr Meithrinfa Enfys Fach am bwysigrwydd bod ar yr un safle â'r ysgol gynradd ar gyfer ymdeimlad y plant o gymuned a'u datblygiad. Mae'r plant meithrin yn mynychu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ochr yn ochr â phlant yr ysgol, a gallant ddefnyddio’r ardal ysgol goedwig hefyd i ategu eu dysgu.

**37.** Gwelodd Carolyn Thomas AS y cymorth cyfannol a gaiff ei gynnig i blant lleol yn Venture yn Wrecsam. Mae’n cynnig canolfan blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gofal plant Dechrau’n Deg; yn ogystal â phrosiect dysgu amgen ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Mae’n cynnal cymorthfeydd wythnosol gydag ymwelydd iechyd, cymorthfeydd cyngor cymunedol, sesiynau galw heibio gyda’r heddlu a chlwb ieuenctid.

**38.** Tynnodd Oxfam Cymru sylw at y ffaith nad yw llawer o rieni'n gallu cael y 30 awr o ofal plant mewn un lleoliad, gyda 12.5 awr mewn lleoliad ysgol ac yna 17.5 awr mewn lleoliad cofrestredig gwahanol, gyda chyfranogwyr i’r gwaith ymchwil yn pwysleisio'r anhawster a’r gost ychwanegol a achosir gan hyn.[33].

**39.** Mae adroddiad diweddar gan Naomi Eisenstadt a'r Athro Kathy Sylva[34] wedi galw am sefydlu campysau plant sy'n cyfuno addysg a gofal plentyndod cynnar gyda chymorth teulu ehangach i gynyddu galluoedd rhieni a gwella dysgu plant. Roedd y rhesymeg dros y dull hwn, yn ôl Naomi Eisenstadt, fel a ganlyn:

> *“… the necessity that your integrated family support services sit alongside high-quality early education and care. So, it's not that you go somewhere, you drop your child somewhere else and then come to your drop-in for advice on how to be a parent; you bring these two things together. So, the children's campus includes high-quality early education and care, but also includes all those others— health, employment advice, benefits advice, and all that kind of stuff. And if you're setting up something*

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru
[34] Eisenstadt a Sylva ar gyfer Nesta, Transforming early childhood: narrowing the gap between children from lower and higher-income families

> *new, as far as possible, you do it within a primary school locality.”*[35]

**40.** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai ei huchelgais yw “i holl ysgolion Cymru fod yn Ysgolion Bro”.[36] Hyd yma, mae 35 o brosiectau wedi'u cymeradwyo o raglen gyfalaf gofal plant a’r blynyddoedd cynnar 2022-25, gyda 28 ohonynt wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion.[37] I roi cyd-destun, roedd 1,463 o ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2022-23.

**41.** Gan edrych ar integreiddio’n ehangach, dywedodd y Gweinidog:

> *“For me, integration, co-location are focal points. If we can join up services in the best way, that is really important to support the child and the family”.*[38] [39]

## Tâl a statws y gweithlu

**42.** Fel yr amlygwyd yn ein hymchwiliad gwreiddiol, mae’r heriau recriwtio a chadw parhaus sy'n wynebu'r sector gofal plant yn parhau. Tynnwyd sylw eto at y tâl isel, amodau gwaith a statws y sector. Roedd cyrff sy'n cynrychioli gofal plant yn teimlo nad oedd eu staff yn cael eu talu na’u gwerthfawrogi ddigon, ond na all darparwyr fforddio talu cyflogau uwch. Dywedodd Jane O'Toole:

> *“Childcare and playworkers are underrepresented and in need of the public perception of the valuable work that they do… it's still, often, more lucrative to go and work in a supermarket now— you don't need the qualification, you don't need a level 2 or level 3 qualification, you don't have the responsibility of*

[35] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 265
[36] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 19
[37] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 265
[38] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 26
[39] Mae’r 1,463 o ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn cynnwys 6 ysgol feithrin annibynnol, 1,213 o ysgolion cynradd (gan gynnwys 1,009 gyda meithrinfa ynghlwm wrth yr ysgol gynradd), 27 ysgol ganol (sy'n ymddangos fel pe baent yn ysgolion pob oed), 178 ysgol uwchradd a 39 o ysgolion arbennig. Y ffynhonnell yw’r tabl hwn ar Stats Cymru - Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ysgol (llyw.cymru)

*looking after up to eight or potentially ten children, depending on what setting you're in."*[40]

**43.** Tynnodd staff meithrinfa Dylan's Den, Treorci sylw at brinder pobl sydd eisiau gweithio yn y sector gofal plant. Dywedodd y staff nad yw'r cyflogau a delir yn y sector yn ddigonol o ystyried y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gofalu am blant a chael eu haarolygu gan Estyn, Dechrau'n Deg ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

**44.** Dywedodd Jane Malcolm o National Day Nurseries Association (NDNA) yr Alban wrthym fod talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn beth da[41]. Fodd bynnag, mae ei thystiolaeth ysgrifenedig yn dweud bod y cyllid ychwanegol annigonol wedi achosi:

> *"… significant issues for funded providers as £12 per hour often takes practitioners up to the same level of wage as more senior practitioners. The extra funding from the Scottish Government will not be enough to make up the shortfalls."*[42]

**45.** Soniodd Jane Malcolm ei bod yn ofynnol i weithwyr gofal plant yr Alban gofrestru gyda Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban, boed fel gweithiwr cymorth, ymarferydd, neu ymarferydd arweiniol. Dywedodd fod y cofrestru, ar y cyd â'r cymwysterau priodol, yn arwain at:

> *"… having people who really understand what it is they're doing and why they're doing it for children— and having that real focus on child development as part of that CPL and part of the training, really, really help make it a good place for children to grow up and learn."*[43]

**46.** Cafodd galwad TUC Cymru i sefydlu fforwm gofal plant ei groesawu gan dystion eraill, i ddatblygu datrysiadau gwaith teg i broblemau fel cyflog isel, a

[40] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 395
[41] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 69
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, NDNA Yr Alban
[43] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 39

mynd i'r afael â thanbrisio'r gwaith heriol, cymhleth a gwerthfawr y mae gweithwyr (menywod yn bennaf) yn y sector yn ei wneud.[44]

**47.** Amlinellodd yr Athro Chris Pascal feysydd eraill lle gallai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gymryd camau:

> *"… if you want a really motivated, attractive workforce, it's about their conditions of employment and their job satisfaction as well, and there's more that we can do with continuous professional development offers, training offers, to lift them away from the daily grind and the pressures, to see them as involved in a really exciting, innovative, groundbreaking set of work practices".*[45]

**48.** Dywedodd y Gweinidog fod ganddi ddiddordeb yn y dull sydd wedi'i ddefnyddio yn yr Alban, lle mae'r llywodraeth yn darparu cyllid i leoliadau sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r Gweinidog hefyd yn awyddus i archwilio manteision posibl[46] sefydlu fforwm i archwilio problemau'r gweithlu gofal plant, ac mae wedi gofyn i swyddogion weithio ar hyn.

**49.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru'r gweithlu gofal plant a chwarae. Fodd bynnag, rhybuddiodd swyddog fod y gofyniad i dalu ffi yn fater pwysig yr oedd angen ei ystyried ymhellach, gan ddweud bod angen meddwl am ganlyniadau anfwriadol codi ffioedd cofrestru ar sector sydd eisoes yn eithaf bregus.[47]

## Cymwysterau a hyfforddiant

**50.** Thema gyffredin ymhlith y tystion o Gymru a thu hwnt yw bod cael staff cymwysedig iawn yn allweddol i ddarpariaeth gofal plant o ansawdd uwch.

**51.** Soniodd Dr Dallimore am y dystiolaeth sy'n sail i hyn:

---

[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru
[45] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 210
[46] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 73
[47] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 70

> *"One of the main findings from UK research over the last two decades has been that higher quality settings are those in which staff have higher qualifications - usually defined as relevant degree level or above. Even when most staff in an ECPLC setting are not highly qualified, they benefit from the presence of a highly-trained colleague."*[48]

**52.** Pwysleisiodd yr Athro Christine Pascal effaith cael rhagor o staff cymwysedig iawn:

> *"We need to have something graduate led— and I'm going to say teacher trained, but educative-focused practitioners who really understand child development, learning and health, who have that really robust professional training that gives them what I always call the magic dust to sprinkle on these children that makes something happen."*[49]

**53.** Cyfeiriodd Natalie MacDonald at raglen garlam hyblyg ddwy flynedd o hyd a gaiff ei chynnall gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sy'n cael ei dilyn yn bennaf gan fyfyrwyr na fyddent wedi mynd ymlaen i wneud astudiaethau AU/AB traddodiadol. Mae'n pwysleisio:

> *"I strongly believe that this model would suit a degree apprenticeship route if funding were made available to develop a degree apprenticeship in Early Years Education and Care."*[50]

**54.** Mae cyflogi graddedigion mewn lleoliadau "kindergarten" yn cael ei ystyried gan Estonia fel ffactor allweddol y tu ôl i lwyddiant ei dull cyffredinol. Mae erthygl ddiweddar a gyhoeddwyd mewn cydweithrediad ag Addysg Estonia, sef menter Llywodraeth Estonia ar gyfer cydweithrediad addysg rhyngwladol yn dweud bod y gofyniad i athrawon 'kindergarten' gael gradd yn golygu bod athrawon cymwys iawn yn gweithio gyda phlant, felly mae olrhain datblygiad pob plentyn yn systematig ac yn gyson[51].

---

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr David Dallimore
[49] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 182
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, Natalie MacDonald
[51] Kindergartens in Estonia: more than childcare - Education Estonia

**55.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ymwneud â chydnabod cymwysterau. Dywedodd Hayli Gibson fod rhai ymarferwyr yn ei hardal leol yn ei chael yn anodd cael Gofal Cymdeithasol Cymru i gydnabod eu sgiliau a'u phrofiad:

> *"I'm aware of practitioners who have been to university, have done a three or four-year degree, but they're actually not recognised within Social Care Wales's qualification framework."*[52]

**56.** Awgrymodd Natalie Macdonald fod llawer o bethau bychain yn gysylltiedig â chymwysterau sy'n atal y system rhag gweithio'n effeithiol. Dywedodd:

> *"So, currently, if you've got the level 4, level 5 for leadership and management, but then if you want to continue that development and you want to follow on from that level 5 into a degree, you can't, because the credits aren't enough. There are only 90 credits, and you need 120. And, vice versa, if someone has a degree and would like to do the level 4 or 5, that causes issues with funding because they already have a higher level qualification."*[53]

**57.** O ran manteision posibl cael ymarferwyr gofal plant sydd â chymwysterau lefel gradd, cydnabu'r Gweinidog:

> *"… we do know that it's important the workforce is well equipped with the knowledge, skills and behaviours and the values for high-quality childcare and play work. Because we know how profound the benefits are, particularly for children from disadvantaged backgrounds, for children who have disabilities and those who have additional learning needs as well."*[54]

**58.** O ran y gofynion dysgu blaenorol ar gyfer cymwysterau gofal plant, dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol

---

[52] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 261
[53] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 184
[54] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 97

Cymru i archwilio hyblygrwydd mewn cymwysterau gofal plant ac i gydnabod dysgu blaenorol, o bosibl trwy ddatblygu dyfarniadau atodol.[55]

**59.** Mae gradd-brentisiaethau y blynyddoedd cynnar hefyd yn opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn enwedig gan fod gofal plant Dechrau'n Deg wedi ei gyflwyno'n llawn.[56]

## Ein barn ni

### Gwasanaethau gofal plant a blynyddoedd cynnar integredig sy'n canolbwyntio ar y gymuned

Rydym yn rhannu uchelgais Llywodraeth Cymru i bob ysgol fod yn ysgol fro. Er ein bod yn cydnabod yr effaith y mae cyllidebau cyfalaf heriol yn ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn, rydym yn pryderu am gyflymder y cynnydd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'r camau penodol y bydd yn eu cymryd i gefnogi pob ysgol i fod yn ysgol fro, a phennu dyddiad erbyn pryd y mae am weld hyn yn digwydd.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r cronfeydd cyfalaf cyfyngedig ar gyfer adeiladau ysgolion. Fodd bynnag, mae ein hymweliadau wedi atgyfnerthu gwerth cael gwasanaethau ar un safle. Hoffem weld darpariaeth blynyddoedd cynnar integredig yn cael blaenoriaeth uwch yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Nodwn hefyd frwdfrydedd Naomi Eisenstadt a'r Athro Kathy Sylva ynghylch creu campysau plant sy'n cyfuno addysg a gofal plentyndod cynnar â chymorth ehangach i deuluoedd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r rhain adeiladu ar y ddarpariaeth Dechrau'n Deg bresennol ac ysgolion bro.

### Cyflog, tâl a'r gweithlu

Ar ein hymweliadau â lleoliadau gofal plant, gwelsom yn uniongyrchol ymrwymiad staff i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Fodd bynnag, am rhy hir o lawer rydym wedi dibynnu ar eu hymroddiad i'r swydd yn hytrach na'u gwobrwyo â chyflog ac amodau digonol. Fel yn ein

[55] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 94
[56] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 93

hymchwiliad blaenorol, rydym wedi clywed dro ar ôl tro nad yw’r gweithlu'n cael eu gwerthfawrogi a’u talu ddigon ac nad oes ganddynt y statws proffesiynol a roddir i gydweithwyr eraill ym myd addysg. Mae hyn wedi arwain at heriau dybryd o ran recriwtio a chadw, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy ar frys.

Dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru gynnwys datblygu cynigion uchelgeisiol ond realistig i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gwella amodau gwaith ehangach, a chefnogi cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Dylid gwneud hyn i gyd mewn partneriaeth gymdeithasol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddysgu o brofiad yr Alban, gan sicrhau bod darparwyr yn cael eu hariannu'n ddigonol er mwyn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf i staff, a bod lleoliadau'n gallu parhau i dalu mwy i uwch ymarferwyr am y cyfrifoldeb ychwanegol hwnnw.

Clywsom dro ar ôl tro fod gweithlu a arweinir gan raddedigion yn elfen hollbwysig mewn systemau addysg plentyndod cynnar llwyddiannus fel y rhai yn Estonia a’r gwledydd Nordig. Bydd recriwtio a chadw mwy o ymarferwyr â chymwysterau gradd yn allweddol i hyn, tra’n gwneud yn siŵr nad yw llwybrau galwedigaethol mwy traddodiadol i’r sector yn cael eu hanghofio. Bydd dulliau arloesol megis darpariaeth gradd hyblyg a gradd-brentisiaethau hefyd yn rhan o’r ateb, a gallant helpu i roi’r cyfle i’r rhai sydd eisoes yn cael eu cyflogi yn y sector i symud ymlaen.

Yn olaf, mae’r gofyniad i gofrestru’r gweithlu yn gyfle i godi ei statws, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ddysgu o’r profiad yn yr Alban a bwrw ymlaen â hyn.

**Argymhelliad 3.** Er mwyn gwella cyflog ac amodau gwaith ehangach yn y sector gofal plant, a chynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig, dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn cael digon o gyllid i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff a gyflogir yn y sector gofal plant, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025.
- Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gefnogi'r sector i wella amodau gwaith ehangach a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a rhoi diweddariad i’r Pwyllgor gydag enghreifftiau clir o sut y mae’r rhain wedi gwella mewn 12 mis.

- Blaenoriaethu cynyddu nifer yr ymarferwyr gradd-gymwysedig o fewn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys dulliau newydd o gyflawni hyn, tra’n cadw hefyd y llwybrau galwedigaethol traddodiadol i'r sector. Dylai hefyd gymryd camau i symleiddio gofynion cymwysterau.
- Bwrw ymlaen â'i chynlluniau i fynnu bod y gweithlu gofal plant a chwarae yn cael ei gofrestru, gyda'r nod o gyflwyno cofrestru cyn diwedd y Chweched Senedd.

# 3. Hygyrch i bawb

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ofal plant

**60.** Dywedodd arbenigwyr wrthym, er y gall addysg a gofal plentyndod cynnar fod yn offeryn pwerus wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau y mae plant o'r aelwydydd tlotaf yn eu hwynebu, mae'r pwyslais ar gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn y system bresennol yn gwaethygu'r anghydraddoldebau hyn.

**61.** Amlygodd Naomi Eisenstadt effeithiau negyddol y meini prawf cymhwystra ar gyfer y ddarpariaeth 30 awr yr wythnos ar blant o'r teuluoedd tlotaf:

> *"One of the things that's incredibly unfair about the free 30 hours is that the poorest children, whose parents are not working, get half the quality childcare than the better-off children get."*[57]

**62.** Yn yr un modd siaradodd Sefydliad Bevan[58] ac Oxfam Cymru am yr effaith ar blant mewn aelwydydd incwm isel. Dywedodd Oxfam:

> *"While it is beyond reach for many low-income families due to restrictive criteria, the upper threshold of the Offer, set at £100,000 for each parent, also raises questions about equity. This disparity can lead to imbalances in access to the Offer, effectively excluding families in genuine need, including unemployed parents."*[59]

**63.** Mae Sefydliad Bevan wedi awgrymu dull amgen lle mae hyd at 15 awr yr wythnos o ofal plant am ddim yn cael ei ddarparu i bob plentyn nes y maent yn 4 oed, am 48 wythnos y flwyddyn. Byddai unrhyw ddarpariaeth ychwanegol wedyn yn destun prawf modd, gyda'r cartrefi incwm isaf yn derbyn gofal plant wedi'i ariannu'n llawn tra bod y rhai sydd â'r incwm uchaf yn talu ffioedd llawn.[60] Galwodd Naomi Eisenstadt a'r Athro Kathy Sylva am i bob plentyn o 2 oed gael

[57] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 269
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru
[60] Sefydliad Bevan, Taclo anfantais trwy ofal plant yng Nghymru

20 awr yr wythnos o addysg a gofal plentyndod cynnar am ddim, ac am 20 awr o ddarpariaeth am ddim i blant rhwng 12 a 24 mis y mae eu rhieni mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.[61]

**64.** Mae arfer da mewn gwaith cymdeithasol i blant mewn angen yn hyrwyddo gofal plant fel ymyriad lle mae teulu mewn argyfwng. Amlygodd Venture yn Wrecsam y gost o roi rhagor o blant mewn gofal, sef £6,000 yr wythnos. Mae cyllideb gwasanaethau plant Cyngor Sir Wrecsam wedi cynyddu 141%.

**65.** Dywedodd y Gweinidog wrthym, er bod ffigurau'n cael eu cadw ar nifer y plant sy'n derbyn gofal cymdeithasol a chymorth, nad oes unrhyw wybodaeth ar gael i ddangos faint o awdurdodau lleol sy'n defnyddio gofal plant fel ymyriad.[62]

**66.** Mae llawer o dystiolaeth bod darpariaeth gyffredinol yn fwy llwyddiannus o ran mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi na darpariaeth sydd wedi'i thargedu'n benodol at deuluoedd tlotach.

**67.** Ddechrau'r 2000au, canfu'r Prosiect Darpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Ysgol - yr astudiaeth hydredol Ewropeaidd fawr gyntaf o ddatblygiad plant rhwng 3 a 7 oed - fod plant difreintiedig yn elwa'n sylweddol ar brofiadau cyn ysgol o ansawdd da, yn enwedig pan fyddant gyda chymysgedd o blant o wahanol gefndiroedd cymdeithasol.[63] Daeth adolygiad diweddar gan Ymddiriedolaeth Sutton i'r casgliad canlynol:

> *"Evidence shows the benefits of universal provision above targeted provision in closing the attainment gap, as long as take-up rates amongst the less advantaged are high. It is suggested that universal provision encourages a social mix amongst children, attracts more highly qualified staff, removes stigma and encourages take up of places."*[64]

---

[61] Eisenstadt a Sylva ar gyfer Nesta, Transforming early childhood: narrowing the gap between children from lower- and higher-income families

[62] Papur i'w Nodi: 1 Gorffennaf

[63] Prosiect Darpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Ysgol (EPPE), Findings from Pre-school to end of Key Stage 1)

[64] Ymddiriedolaeth Sutton, A fair start? Equalising access to early education

**68.** Pwysleisiodd Naomi Eisenstadt bwysigrwydd gwasanaethau wedi'u targedu i bawb:

> *"The principle of open access means that you have to do something that children and families want, because it's not like school— you know, the parents don't get fined if they don't come to the centre."*[65]

**69.** Roedd Jane Malcolm yn cymeradwyo'r dull a gymerwyd gan Lywodraeth yr Alban i ddarparu gofal plant am ddim i bob teulu, nid dim ond y rhai mewn gwaith:

> *"So definitely, it's a benefit to the parents. There are issues around funding and around places, but on the whole, I think it's been a great thing for parents in terms of lifting people out of that poverty-related gap."*[66]

## Darpariaeth anabledd

**70.** Mae Coram Family and Childcare yn cynnal arolygon o ddigonolrwydd gofal plant awdurdodau lleol bob blwyddyn.[67] Roedd y Pwyllgor yn siomedig iawn i ddeall bod data 2024 yn dangos mai dim ond 5% o awdurdodau lleol Cymru oedd â digon o ofal plant ar gyfer plant ag anableddau ym mhob ardal.

**71.** Tynnodd Janet Kelly sylw at y materion allweddol a godwyd mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

> *"… there were some really heartbreaking stories of families who were promised that a nursery would be able to accommodate their child, they'd arranged to go back to work, and the day that they were due to go back to work, the nursery said they couldn't cope with their child and they had to take them home and look after them."*[68]

[65] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 163
[66] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 122
[67] Arolygon Teulu a Gofal Plant Coram
[68] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 194

**72.** Dywedodd Hayli Gibson fod ymarferwyr yn ofni cael rhywbeth yn anghywir[69] wrth ddarparu lleoedd i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a bod lleoliadau anaddas, diffyg cyllid, a phrinder staff yn rhwystro darpariaeth. Dywedodd hefyd, pan fydd ei hawdurdod lleol yn darparu hyfforddiant, bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â llenwi swyddi dros drp pan fydd staff ar hyfforddiant.

**73.** Dywedodd Sarah Mutch wrthym fod cyllid ar gael fel rhan o Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, ond bod yr her yn dod gyda gofal cofleidiol, neu ddarpariaeth clybiau gwyliau, clybiau ar ôl ysgol neu glybiau brecwast.[70]

**74.** Tynnodd Janet Kelly sylw at yr heriau y mae ei sefydliad yn eu hwynebu wrth gael gafael ar gyllid gan awdurdodau lleol i gefnogi plant ag anableddau, a galwodd am drefniadau comisiynu mwy strwythuredig ar gyfer darpariaeth hamdden ar gyfer plant ag anableddau. ”[71]

**75.** Nododd cyfranwyr grwpiau ffocws fanteision cynnwys pob plentyn yn yr ystafell ddosbarth, fodd bynnag, roeddent hefyd yn mynegi rhwystredigaeth o ran canfod ac ariannu darpariaeth addas.

> *"Dwi wedi gweld plant yn datblygu cymaint ar ôl cyrraedd yma'n ddwy oed a hyd yn oed yn iau. Mae'r plentyn hwn, meddent, yn fud ac yn fyddar, mae ganddo anawsterau symud ac mae o ar ei hôl hi ym mhob agwedd ar ei ddatblygiad. Pan adawodd y plentyn, roedd yn rhedeg o gwmpas y neuadd, roedd yn ymwybodol yn weledol o'r hyn roedd yn ei wneud ac roedd ei sgiliau cyfathrebu wedi gwella. A hynny oherwydd hyfforddiant, oherwydd cymorth un i un ond hefyd oherwydd ethos y lle 'ma. Mae yna ysgolion sy'n defnyddio'r esgus "mae'n rhy ddrud a dydyn ni ddim yn gallu gofalu am y plentyn hwn".*
>
> Cyfranogwr grŵp ffocws

**76.** Yn ystod ein hymweliadau â lleoliadau gofal plant, gwelsom arfer da o ran cynnwys plant ag anghenion ychwanegol. Ond soniodd Canolfan Blant Integredig Aberafan am brinder lleoedd gofal plant i blant ag anghenion

[69] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 213
[70] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 356
[71] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 200

ychwanegol. Soniodd Meithrinfa Enfys Fach am y broses gymhleth ar gyfer cael gafael ar gyllid i gefnogi'r plant hyn.

**77.** Cyfeiriodd y Gweinidog at y cynnydd mewn cyllid Grant Cymorth Ychwanegol sydd ar gael eleni fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, ac amlinellodd gynlluniau i gynyddu ymwybyddiaeth o hyn[72].

**78.** Cydnabu swyddog y Gweinidog nad oes digon o leoedd gofal plant ar gael i blant ag anghenion ychwanegol yn gyffredinol[73], a dywedodd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gywiro hynny.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**79.** Yn ein hadroddiad yn 2022 gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i nodi ei chynlluniau i osod mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion. Nododd CWLWM fod y cynllun Sefydlu a Symud wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol i:

> *"adnabod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, gan dargedu ardaloedd sydd angen ehangu'r opsiynau gofal plant sydd ar gael i rieni."*[74]

**80.** Mae diffyg gweithwyr gofal plant proffesiynol cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn her fawr i ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae CWLWM wedi amcangyfrif bod angen i 1,500 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol gymhwyso o fewn unrhyw dymor pum mlynedd y Senedd, sy'n golygu cynnydd o 300 o staff newydd yn cymhwyso bob blwyddyn. Dywed bod rhaglenni Mudiad Meithrin, yn cynnwys Cam wrth Gam, yn golygu bod hyn "yn agos at gael ei wireddu".[75]

**81.** Cyfeiriodd CWLWM at bwysigrwydd sicrhau cyfleoedd hyfforddi a chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nododd fod llai nag 1% o ddysgwyr

[72] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 117
[73] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 120
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, CWLWM
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, CWLWM

yn derbyn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg drwy addysg bellach a phrentisiaethau.[76]

**82.** Trafododd Jane O'Toole y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud drwy gydweithio â Mudiad Meithrin i gefnogi ehangu gofal cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol, gan egluro bod yr integreiddio'n gweithio'n dda ac yn darparu astudiaethau achos cadarnhaol iawn.[77].

**83.** Tynnodd y Gweinidog sylw at gynnydd yn y nifer o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wrth ehangu Dechrau'n Deg[78]. Dywedodd ei thystiolaeth ysgrifenedig fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu pobl i astudio cymwysterau gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, ac wedi buddsoddi mewn datblygu cwrs Cymraeg canolradd yn benodol ar gyfer gweithwyr gofal plant.[79]

## Gofal plant lle a phryd mae ei angen

**84.** Mae canfod gofal plant mewn lleoliadau gwledig yn her. Canfu gwaith ymchwil Sefydliad Bevan bod cael gafael ar ofal plant yn arbennig o anodd mewn llawer o ardaloedd gwledig.[80] Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod yn dadlau bod angen diwygio'r system gofal plant yn sylweddol er mwyn sicrhau bod pawb sydd â hawl i ofal plant yn gallu cael mynediad ato, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig.[81]

**85.** Tynnodd Jane O'Toole sylw at yr her gofal plant mewn ardaloedd gwledig:

> *"… in rural areas, it is more difficult, because you need to have a certain amount of children attending to make the setting sustainable. Whilst we have got smaller schools that do have settings, they often need a sustainability grant or some funding, fundraising by parents, you know, that sort of thing, to keep going, so it is difficult."*[82]

**86.** Dywedodd Dr Dallimore:

---

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, CWLWM
[77] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 409
[78] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 126
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod
[82] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 205

> *"we've seen over the last few years quite a significant drop in the number of child minders, and they tended to be the bedrock of support in some rural areas where it's difficult for full day-care provision, for example, to be developed. And that gap is quite concerning, I think, for some in those areas."*[83]

**87.** Canfu'r adolygiad annibynnol o warchod plant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod "gwarchodwyr plant yn fwy tebygol na gwasanaethau gofal dydd o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol, ac yn llai tebygol o fod mewn pentrefi gwledig".[84]

**88.** Dywedodd CWLWM fod y ddarpariaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol a gwaith shifft yn dal i fod yn gyfyngedig iawn a bod y 'model cyllido presennol yn atal hyn rhag newid'. Pwysleisiodd CWLWM bod y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol neu ar gontractau dim oriau yn fwy tebygol o fod ag incwm is a chostau gofal plant drutach.[85]

**89.** Cydnabu Oxfam Cymru bod costau cynyddol gofal plant yn cael effaith negyddol ar y rhai sy'n gweithio oriau gwaith annodweddiadol,[86] Galwodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru hefyd am fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth[87].

## Oriau

**90.** Nododd yr Athro Pascal y dystiolaeth gyfyngedig ar y nifer delfrydol o oriau addysg a gofal plentyndod cynnar :

> *"I don't think there's any evidence anywhere that says 30 hours is the magic number. It's a number they've plucked out of the air. The evidence I think we did look at said, if you want to make a difference, 15 hours wasn't quite enough, but there was no evidence that 30 hours was a magic— . So, the evidence was that*

[83] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 205
[84] Ymchwil Arad ar ran Llywodraeth Cymru, Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant
[85] Tystiolaeth ysgrifenedig, CWLWM
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod

> *somewhere between 20 and 25 seemed to be kind of a good pitch of that."*[88]

**91.** Wrth edrych ar hyn o safbwynt y rhieni, dywedodd Oxfam Cymru a'r Gynghrair Gwneud Gofal yn Deg bod rhieni o'r farn "nad yw 2.5 awr y dydd o ofal plant yn ddigon i fynd i'r afael â'u hanghenion".[89] Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod manteision ehangu Dechrau'n Deg yn cael eu gwrthbwyso gan anfanteision sylweddol, yn fwyaf nodedig y ffaith bod oriau a ariennir wedi'u cyfyngu i 12.5 awr yr wythnos, wedi'u rhannu dros 2.5 awr y dydd.[90]

**92.** Yn ôl Naomi Eisenstadt, mae gwthio gofal rhan-amser i nifer llai o ddyddiau yn arwain at bethau da ar gyfer cyflogaeth rhieni, ond nid oedd o'r farn ei fod yn arwain at ansawdd uchel i'r plentyn.[91] Dywedodd:

> *"… if a woman on a low income wants to work two full days, which makes absolute sense in terms of transport costs and everything else, in terms of the quality of experience for the child, it's less likely they're going to get the educational and social benefits that Chris [Pascal] was describing from two full days as opposed to five part-time days."*[92]

**93.** Dywedodd Meithrinfa Enfys Fach wrthym fod plant mewn rhai awdurdodau lleol yn gweld gostyngiad o'r 12.5 awr yr wythnos yn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg i 10 awr yr wythnos o addysg gynnar. Mae hyn yn golygu bod rhieni/gofalwyr yn gorfod talu mwy fel y gall eu plant orffen ar yr un pryd, aros am hanner awr, neu dynnu plant Dechrau'n Deg allan cyn diwedd eu sesiynau.

## Ein barn ni

### Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ofal plant

Gall mynediad at ofal plant o ansawdd uchel i bawb fod yn arf pwerus wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, fodd bynnag mae polisi gofal plant yng Nghymru,

[88] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 271
[89] Oxfam Cymru ar ran Cynghrair Gwneud Gofal yn Deg, Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
[91] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 165
[92] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 165

fel y mae wedi'i gynllunio ar hyn o bryd, yn gwneud y gwrthwyneb. Mae pryderon hirsefydlog bod meini prawf cymhwystra y Cynnig Gofal Plant, sy'n arwain at blant o aelwydydd incwm is yn cael llai o addysg a gofal plentyndod cynnar na'r rhai o aelwydydd incwm uwch, yn gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol. Clywsom dystiolaeth rymus mai ymestyn y Cynnig Gofal Plant i bob plentyn waeth beth yw incwm y rhieni yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau eu bod yn elwa ar addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel.

Mae gofal plant yn ymyrraeth llawer mwy cost effeithiol i deuluoedd sydd angen cymorth, yn hytrach na chymryd plentyn i ofal pan fydd teuluoedd yn cyrraedd pen eu tennyn. Mae pwerau o fewn pob cyngor i ddefnyddio gofal plant fel ymyrraeth a allai atal yr ymyrraethau llawer dwysach a drytach a gaiff effaith ddifrifol ar gyllidebau cynghorau, fel y cofnodwyd yn Wrecsam.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darpariaeth a ariennir yn cael ei chynnig ar sail gyfartal i blant 3-4 oed fel rhan o unrhyw gynllun yn y dyfodol i ehangu gofal plant i adeiladu ar y dull cyffredinol y mae'n ei fabwysiadu ar hyn o bryd wrth ehangu gofal plant Dechrau'n Deg. Dylai hefyd ystyried ai rhieni'n gallu ennill hyd at £100,000 yr un yw'r terfyn uchaf cywir ar gyfer Cynnig Gofal Plant am ddim.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i fynd i'r afael â'r risg y bydd ei chynlluniau cymorth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn gwaethygu anghydraddoldebau sy'n wynebu plant sy'n byw mewn cartrefi nad ydynt yn gweithio drwy:

- Ymestyn darpariaeth a ariennir ar gyfer pob plentyn 3-4 oed wrth ehangu unrhyw ofal plant yn y dyfodol, yn hytrach nag eithrio plant o deuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cyflogaeth ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.
- Ystyried ai'r meini prawf cymhwystra presennol y gall rhieni ennill hyd at £100,000 yr un yw'r terfyn uchaf cywir o ran cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.
- Cymryd camau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn targedu ardaloedd mwy difreintiedig i ddechrau wrth ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### Darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol

Mae mantais darpariaeth o ansawdd uchel, wedi'i theilwra ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol neu gymhleth a'u teuluoedd yn amlwg, ond nid yw'r ddarpariaeth yn cyrraedd lle y dylai fod, o bell ffordd, ac mae prinder lleoedd, prinder staff, a chymhlethdod ffrydiau cyllido yn creu rhwystrau sylweddol i fynediad.

Er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa dorcalonnus lle dywedwyd wrthym fod teulu â phlentyn anabl wedi cael gwybod ar y diwrnod yr oedd eu plentyn i fod i ddechrau nad oedd darpariaeth ar gael bellach, credwn y dylai fod angen gwarant y bydd plant sy'n cael cynnig lle yn gallu cael mynediad ato. Bydd angen gwaith gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a lleoliadau i bennu amserlen ymarferol i weithredu gwarant o'r fath, a sut y byddai'n gweithio.

Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r ffrydiau cyllid sydd ar gael i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, yn enwedig o gofio bod y Grant Cymorth Ychwanegol o fewn Cynnig Gofal Plant Cymru wedi cynyddu. Mae angen iddi ymateb hefyd i'r pryderon a glywsom am anhawster cael gafael ar y cyllid hwn.,

Rydym yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch gofal plant, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym yn gobeithio y byddant yn cael eu derbyn a'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth frys, yn cymryd camau i sicrhau bod digon o leoedd a chyllid ar gael i bob plentyn ag anghenion ychwanegol neu gymhleth drwy:

- Weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector i ganfod amserlenni realistig ar gyfer gwarantu y bydd plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant, ac ymrwymo i ariannu a gweithredu'r warant honno.
- Nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o ffrydiau cyllido i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac i leihau cymhlethdod cael gafael ar y cronfeydd hyn.

- Derbyn a gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â gofal plant yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 'A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'.

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Clywsom gan ddarparwyr gofal plant am yr her ddifrifol a gyflwynir gan ddiffyg gweithwyr gofal plant proffesiynol cyfrwng Cymraeg, gyda CWLWM yn amcangyfrif bod angen i 1,500 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol gymhwyso dros gyfnod o bum mlynedd. Dywedodd CWLWM wrthym hefyd am y gyfran isel o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg bellach a phrentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar y buddsoddiad y mae eisoes wedi'i wneud, er enghraifft drwy raglen Cam wrth Gam.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gynyddu nifer yr ymarferwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg, a chyfleoedd i ymarferwyr gymhwyso drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai wneud hyn drwy ddarparu cyllid digonol i alluogi 300 o staff newydd i gymhwyso bob blwyddyn, a gweithio gyda darparwyr addysg bellach a phrentisiaethau i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

# 4. Fforddiadwy a chynaliadwy

## Manteision buddsoddi mewn addysg a gofal plentyndod cynnar

**94.** Yn ein gwaith blaenorol ar dlodi plant, daeth y Pwyllgor i'r casgliad:

> *"Mae darparu gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel i bawb yn rhan allweddol o gyflwyno ymyriadau gwell yn ystod y blynyddoedd cynnar. Clywsom dystiolaeth gref o Norwy yn benodol am effeithiolrwydd addysg a gofal plant o safon yn y blynyddoedd cynnar i dorri'r cylch tlodi rhwng cenedlaethau."*[93]

**95.** Tanlinellodd Oxfam Cymru bwysigrwydd buddsoddi mewn gofal plant hygyrch a fforddiadwy. Dywedodd yr Athro Pascal wrthym:

> *"There's no better investment than investing early on in an individual's life, because you get the benefit for longer and it has a more significant impact…*
>
> *investing in a quality service …does cost more but not that much more. They're investing a lot already. So, why have a sow's ear when you could do a little bit more and have something that could really make a difference. And the investment has to be skewed towards those children and families who would benefit most."*[94]

**96.** Canfu ymchwil ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y gall buddsoddi mewn addysg a gofal plentyndod cynnar gael effaith gadarnhaol ar leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol, daethant i'r casgliad bod angen buddsoddiad sylweddol mewn addysg a gofal plentyndod cynnar, a bod angen blaenoriaethu gwella ansawdd y ddarpariaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad fel rhan o'r buddsoddiad hwn.[95]

---

[93] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru; Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 188
[95] Bucelli a McKnight ar ran Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar addysg a gofal plentyndod cynnar

**97.** Mae Naomi Eisenstadt a'r Athro Kathy Sylva yn tynnu sylw at ganlyniadau peidio â buddsoddi'n ddigonol mewn addysg a gofal plentyndod cynnar:

> *"… we will fail future generations if we don't consider the needs of our youngest citizens, not the least, because research has shown that improving family circumstances and early education over the next ten or 15 years will yield benefits for the future."*[96]

## Costau sy'n wynebu rhieni a sut mae'r rhain yn effeithio ar gydraddoldeb rhywedd

**98.** Mae adroddiadau diweddar yn dangos bod llawer o deuluoedd yng Nghymru yn parhau i'w chael yn anodd talu costau gofal plant. Canfu Oxfam Cymru a'r Gynghrair Gwneud Gofal yn Deg:

- Mae 92% o rieni a gwarcheidwaid yn teimlo bod costau gofal plant yn rhy uchel o gymharu â'u hincwm.
- Dywedodd 70% o rieni a gwarcheidwaid nad oedd ganddynt unrhyw incwm dros ben na chynilion ar ôl dyrannu incwm ar gyfer gofal plant.
- Dywedodd 53% nad yw mynd yn ôl i waith cyflogedig yn gwneud synnwyr ar ôl talu am ofal plant.[97]

**99.** Canfu Sefydliad Bevan[98] fod 70% o rieni â phlant 10 oed ac iau yn teimlo bod gofal plant yn anfforddiadwy o'i gymharu ag 11% a oedd yn teimlo ei fod yn fforddiadwy. Roedd hon yn broblem arbennig o ddifrifol i rieni incwm isel.

**100.** Costau gofal plant oedd y prif fater a godwyd mewn grwpiau ffocws gyda rhieni a staff gofal plant fel rhan o'r ymchwiliad hwn.[99] Roedd consensws bod costau gofal plant ffurfiol yn rhy uchel, a bod hyn wedi effeithio ar benderfyniad nifer o'r cyfranogwyr ynghylch a oeddent am ddychwelyd i'r gwaith. Dywedodd

[96] Eisenstadt a Sylva ar gyfer Nesta, Transforming early childhood: narrowing the gap between children from lower and higher-income families
[97] Oxfam Cymru a Chynghrair Gwneud Gofal yn Deg, Camau bach, brwydrau mawr
[98] Sefydliad Bevan Taclo anfantais trwy ofal plant yng Nghymru
[99] Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu: Gofal plant - ymchwiliad dilynol

nifer o gyfranogwyr hefyd fod costau byw cynyddol, gan gynnwys costau gofal plant, wedi effeithio'n sylweddol ar eu dewis i gael rhagor o blant ai peidio.

> *"Yn barod dwi'n cael sgyrsiau oherwydd fe fyddwn i'n hoffi cael rhagor o blant ond, wel, yn ariannol bydd rhaid aros nes ei fod yn dair gan mai dyna'r amser rydyn ni'n cael cymorth gyda gofal plant. Ac yna mae'n seibiant gyrfa arall, fel arfer i'r fenyw hefyd."*
>
> *Cyfranogwr grŵp ffocws*

> *"Mae mynd lawr i oriau rhan-amser yn newid parhaol weithiau. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr lenwi'r bwlch hwnnw. Oni bai eich bod mewn amgylchiadau gwahanol, gallai hynny fod yn beth parhaol ac yna rydych chi wedi colli'r oriau hynny. Pan fydd eich plentyn yn mynd i'r ysgol mae'n rhaid i chi ystyried beth mae hynny'n ei olygu i'ch gyrfa."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws*

**101.** Amlygodd Oxfam Cymru y berthynas rhwng darpariaeth gofal plant ac anghydraddoldeb rhywedd a mynediad i'r gweithlu.[100]

**102.** Soniodd Sefydliad Bevan, fodd bynnag, nad yw'r Cynnig Gofal Plant yn arbennig o effeithiol o safbwynt cefnogi rhieni yn ôl i'r gwaith ar yr adeg y daw gofal plant wedi'i ariannu ar gael. Mae'n tynnu sylw at ddata Llywodraeth Cymru, sy'n dangos mai dim ond 13% o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yn 2021-22 oedd ddim eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol.[101]

**103.** Amlygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru na fydd cyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg yn gyffredinol i bob plentyn dwy flwydd oed yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd mewn cyflogaeth:

[100] Oxfam Cymru ar ran Cynghrair Gwneud Gofal yn Deg, Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru
[101] Oxfam Cymru ar ran Cynghrair Gwneud Gofal yn Deg, Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru

> *"Research shows that funded childcare in the region of 15 hours or less is largely ineffective in addressing parental employment, whereas expanding entitlements to 30 hours leads to significant increases in labour force participation and employment of mothers whose youngest child is eligible."*[102]

## Ffyrdd o wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy

**104.** Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru am weld hawliau gofal plant presennol yn cael eu dwyn ynghyd mewn un cynllun sy'n cynnig o leiaf 30 awr yr wythnos o ofal plant o ansawdd uchel i bob plentyn rhwng dwy a phedair oed.[103]

**105.** Galwodd Oxfam Cymru a'r Gynghrair Gwneud Gofal yn Deg am system gofal plant ddi-dor a fforddiadwy, sy'n mynd i'r afael â bylchau a phroblemau pontio drwy system gofal plant unedig a chyffredinol.[104]

**106.** Clywodd y Pwyllgor gan arbenigwyr yng Nghanada, Estonia a'r Alban lle mae darpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar gyffredinol neu ddarpariaeth sy'n ehangu.

**107.** Mae Llywodraeth Estonia wedi pasio deddfwriaeth fel na chaiff cyfran y costau fesul plentyn, sy'n cael eu talu gan riant, fod yn fwy na 20% o'r isafswm cyflog cyfreithlon.[105] Rhanbarthau sy'n darparu'r ddarpariaeth 'kindergarten', a gallant addasu ffioedd i ystyried sefyllfa economaidd-gymdeithasol rhieni a nifer y plant yn y teulu.[106] Nododd Maria Jürimäe yr effaith y mae hyn yn ei chael ar system Estonia:

> *"It's not free, of course, but, compared to some other countries, in smaller places it can be €60 or €70 per month, and in towns it could— it depends on the kindergarten— be €110 or €140. It's something that's quite affordable, actually. Eating is included,*

[102] Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[103] Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[104] Oxfam Cymru ar ran Cynghrair Gwneud Gofal yn Deg, Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru
[105] Eurydice, National Education Systems – Estonia: Early Childhood Education and Care-Access
[106] Llywodraeth Estonia, Kindergarten placement and its application

*and it's a whole-day kindergarten, so they can go from 08:00 to 17:00 or so; most of the children don't, but some parents need it. If people have some problems, like they've lost their job or they're in poverty, then the local municipality will pay entirely for those children, so the parents don't need to pay anything."*[107]

**108.** Dywedodd Dr Dallimore wrthym y dylai capio ffioedd gofal plant, fel sy'n cael ei wneud yn y gwledydd Nordig, gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru:

*"It, to me, seems a much fairer way and, yes, when we talk about universality, that doesn't mean that all parents pay nothing, and I don't think there are any countries that I know of where early years services, including childcare, are free at the point of delivery for every single parent. It is a compromise. But certainly, having capped fees is one idea that's very popular and would seem to be a much fairer use of funding."*[108]

**109.** Yn Sweden, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ranbarthau ddarparu gweithgareddau cyn ysgol a gofal plant sy'n cael cymhorthdal o'r pwrs cyhoeddus i bob plentyn o flwydd oed. Mae costau addysg a gofal plentyndod cynnar wedi'u capio i wneud darpariaeth yn fforddiadwy i rieni - sef 3% o incwm misol yr aelwyd ar gyfer y plentyn cyntaf, 2% ar gyfer yr ail, 1% ar gyfer y trydydd, ac am ddim i'r pedwerydd plentyn a thu hwnt.[109]

**110.** Cyflwynodd yr Alban addysg a gofal plant cynnar am ddim i bob plentyn 3-4 oed am 38 wythnos y flwyddyn o fis Awst 2021, boed rhieni'r plant yn gweithio ai peidio.[110] At hynny, mae'n darparu gofal plant am ddim am 38 wythnos y flwyddyn i blant 2 oed y mae eu rhieni'n bodloni meini prawf yr Alban ar gyfer prydau ysgol am ddim.[111] Darparodd Llywodraeth yr Alban £2 biliwn mewn cyllid ychwanegol dros bum mlynedd i gefnogi'r ehangu hwnnw.[112]

[107] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 26
[108] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 290
[109] Eurydice, National Education Systems – Sweden: Funding in education – Early childhood and school education funding
[110] Llywodraeth yr Alban, Funded early learning and care
[111] Llywodraeth yr Alban, ELC for two year old children
[112] Llywodraeth yr Alban, Delivering for Scotland's children

**111.** Dywedodd Jane Malcolm ei fod yn bolisi da ac mai'r her yw ei gyflawni.[113] Dywedodd wrthym, er ei fod wedi bod yn beth gwych i rieni o ran codi pobl allan o'r bwlch hwnnw sy'n gysylltiedig â thlodi,[114] nid oes digon o gyllid ar gael i ddarparwyr a'r gweithlu.[115] Mae Jane Malcolm yn credu bod angen datrys y materion hyn cyn unrhyw ehangu pellach ar y ddarpariaeth.[116]

**112.** Dywedodd Martha Friendly fod ehangu yng Nghanada yn ei ddyddiau cynnar, ac wedi'i lywio gan ehangu mewn gwledydd eraill:

> *"… it's really a complex policy. It's not just about giving parents money, or getting money to parents to enable to them to use childcare for a certain number of hours, but much more to develop the services that people can actually use at a fee that they can afford, essentially. So, we see it being a process, and I do think that this has been accepted as the policy direction. There are many pieces to it, as you have to enable parents to use it financially and you have to make it inclusive of all Canadians."*[117]

**113.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn rhannu uchelgais ei rhagflaenydd ar gyfer darpariaeth gofal plant gyffredinol dros y tymor hwy, gan ddweud:

> *"We have that ambition and I think it's about how we achieve it and the realistic nature— we've talked today about a complex picture. But we need to make sure that we do it in a way that is planned and make sure that the infrastructure is there, whether that's the workforce, as well as making sure that the buildings are suitable, as well."*[118]

**114.** O ran cyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy flwydd oed, dywedodd y Gweinidog fod swyddogion yn rhoi cyngor iddi am sut i wneud hyn,

---

[113] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 10
[114] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 122
[115] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 10
[116] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 143
[117] Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2024, paragraff 42
[118] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 144

a bod bwriad i ddechrau chyfnod 3 y rhaglen ym mis Ebrill 2025.[119] Dywedodd hefyd nad oedd pum awdurdod lleol wedi bodloni gofynion presennol Llywodraeth Cymru eto, ac mae swyddogion yn gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â hyn.[120]

## Ariannu darparwyr i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant

**115.** Yn ystod ein hymchwiliad blaenorol, cawsom ein hatgoffa gan ddarparwyr gofal plant fod y gyfradd ariannu wedi aros ar £4.50 yr awr am nifer o flynyddoedd, a bod hyn yn effeithio ar allu lleoliadau i dalu cyflog cymesur i'w gweithlu.[121] Argymhellwyd cynnydd sylweddol yn y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr sy'n darparu'r Cynnig Gofal Plant, i helpu darparwyr i dalu cyflogau uwch i staff.[122]

**116.** Cynyddodd Llywodraeth Cymru gyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant o £4.50 yr awr i £5 yr awr ym mis Ebrill 2022.

**117.** Clywodd y Pwyllgor bryderon difrifol am y gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu i ddarparwyr gofal plant. Dywed adroddiad a gyhoeddwyd gan Blynyddoedd Cynnar Cymru ym mis Mawrth[123]:

- Nid yw 94% o ddarparwyr yn credu bod y gyfradd fesul awr yn talu eu costau.
- Mae 72% o ddarparwyr yn hyderus y gallant gynnal y model presennol am flwyddyn, gyda gostyngiad dramatig i 20% am 2 flynedd a 9% am 5 mlynedd.
- Mae bron pob darparwr yn credu y dylid adolygu'r gyfradd fesul awr bob blwyddyn neu y dylai godi yn unol â chwyddiant.

---

[119] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 126
[120] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 130
[121] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio
[122] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio
[123] Blynyddoedd Cynnar Cymru, Ymchwiliad data yn ystyried effaith y codiad 2024 mewn Cyflog Byw Cenedlaethol

- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn credu bod angen cyfradd fesul awr bellach o £6 i £8 yr awr.

**118.** Dywedodd rheolwr Dylan's Den nad yw’r gyfradd fesul awr gyfredol y Cynnig Gofal Plant yn ddigonol i dalu eu costau. Dywedir bod darparwyr eraill yn yr ardal leol yn rhedeg ar golled flynyddol o fwy na £30,000. Roeddent yn dadlau y bydd darparwyr yn cau os bydd hyn yn parhau, gan effeithio ar rieni, staff y lleoliadau hynny, a'r economi leol ehangach.

**119.** Roedd staff Dylan's Den o'r farn y byddai adolygu'r gyfradd Cynnig Gofal Plant fesul awr yn flynyddol yn help enfawr. Roeddent yn synnu bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu trosglwyddo cyllid blynyddoedd cynnar i ariannu blaenoriaethau eraill fel rhan o ail-flaenoriaethu ei chyllideb y llynedd, yn hytrach na’i ddefnyddio i gefnogi lleoliadau gofal plant sy'n wynebu anawsterau.

**120.** Dywedodd CWLWM nad yw'r gyfradd "yn ddigonol i fodloni'r ddarpariaeth gwasanaeth" nac "ystyried unrhyw godiad i gyflog staff" a bod methu mynd i'r afael â hyn yn "peryglu hyfywedd nifer fawr o ddarparwyr ar draws y sector".[124]

**121.** O safbwynt awdurdod lleol, dywedodd Hayli Gibson[125] fod yr holl ymarferwyr wedi dweud oni bai bod yna gynnydd i'r ffrydiau ariannu ar eu cyfer, y byddai’n rhaid iddynt efallai dynnu eu hunain yn ôl fel lleoliad.

**122.** Nododd Sarah Coates, o’r National Day Nurseries Association, y newidiadau allweddol yr hoffai hi iddynt gael eu gwneud:

> *“The three-year freeze that we've had on the childcare offer funding rate— at the moment, it's really having a huge impact on providers. So, it's just looking at those funding rates in line with inflation as well, and taking that into consideration, looking at inflation and wages.”*[126]

**123.** Dywedodd y Gweinidog fod llawer o bobl eisoes wedi dweud wrthi am y problemau cyllido y mae darparwyr gofal plant yn eu hwynebu[127] :

[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, CWLWM
[125] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 260
[126] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2024, paragraff 432
[127] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 33

> *"My officials are already working on the review of the Childcare Offer rate, and we're working closely with Cwlwm members to build an accurate picture, to allow a decision to be made about the rate paid to providers. And I would encourage all providers to take part in our evidence gathering. We had a survey launched on 1 May, and it's inviting all registered Childcare Offer providers to take part in what will be an important review for the sector and will be, obviously, very crucial in informing future budget-setting discussions."*[128]

**124.** Dywedodd y Gweinidog fod angen tystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau, ac y byddai unrhyw gynnydd mewn cyllid yn dod i rym o fis Ebrill 2025. Dywedodd, os oes tystiolaeth bod adolygiadau mwy rheolaidd yn briodol, ei bod hi'n agored i hynny.[129]

[128] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 34
[129] Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2024, paragraff 39

***Ffigur 6 Rhai o ganfyddiadau allweddol arolwg gan Blynyddoedd Cynnar Cymru o'i aelodau ar godiad 2024 yn y Cyflog Byw Cenedlaethol***

Mae 94% yn dweud nad yw'r gyfradd a ariennir yn talu'r gost

Mae 84% yn dweud nad yw'r gyfradd a ariennir yn talu am y cynnydd yn yr isafswm cyflog

Mae 91% yn ystyried cynyddu ffioedd rhieni neu yn mynd i wneud hynny

Os bydd dim byd yn newid

Mae 28% yn disgwyl cau o fewn blwyddyn.

Mae 79.8% yn disgwyl cau o fewn 2 flynedd.

Rhaid cynyddu cyllid i £6-8 yr awr fesul plentyn

Mae'r gyfradd bresennol, sef £5 yr awr, heb newid ers 2022

## Ariannu Dechrau'n Deg

**125.** Clywodd y Pwyllgor bryderon hefyd am gyllid Dechrau'n Deg. Dywedodd Sarah Mutch mai arian sy'n cyfyngu awdurdodau lleol o ran ehangu gofal plant Dechrau'n Deg:

> *"The challenge is: we could probably go a bit faster, but the budget constraints are really, really challenging. So, there's a difficulty with sufficient places in the sector being developed alongside sufficient money coming from Welsh Government to be able to pay for those places, and I think it's a challenge to get the balance right."*

**126.** Dywedodd staff yn Venture wrth y Pwyllgor fod cyni, y pandemig a phwysau costau byw wedi cael effaith ddifrifol ar eu cyllideb, ac mae'n gorfod gwneud cais am gyllid o 25-30 o wahanol ffynonellau. Dywedodd staff Canolfan Blant Integredig Aberafan wrth Jenny Rathbone AS a Sioned Williams AS nad yw cyllid Dechrau'n Deg wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

**127.** Dywedodd Venture fod cyllid Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y gymhareb o bedwar o blant i un aelod o staff. Mae'r lleoliad yn cael ei dalu fesul plentyn, mewn setiau o bedwar. Mae hyn yn creu problem pan fydd y lleoliad ar ben isaf y fformiwla. Er enghraifft, os oes gan leoliad 16 o blant, mae angen 4 aelod o staff arno. Fodd bynnag, os oes gan leoliad 17 o blant, mae angen aelod ychwanegol o staff arno, ond dim ond am un plentyn ychwanegol y telir y lleoliad.

### Ein barn ni

#### Buddsoddi mewn addysg a gofal plentyndod cynnar

Er mwyn sicrhau bod manteision addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel a hygyrch yn cael eu cyflawni, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y ddarpariaeth yn fforddiadwy i rieni a'i bod yn ariannu darparwyr mewn modd cynaliadwy er mwyn ei ddarparu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu bod heriau mawr mewn perthynas â fforddiadwyedd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

Mae tystiolaeth ac ymwybyddiaeth dda o fanteision buddsoddi mewn addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel. Rydym yn croesawu bwriad y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn adnewyddu ei ffocws ar 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn. O'i gyfuno â gweledigaeth fwy gydlynol, rydym o'r farn bod mwy o fuddsoddiad mewn gofal plant yn enghraifft wych o sut y gallai'r llywodraeth wneud gwahaniaeth go iawn i deuluoedd. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaethom yn ein hadroddiad ar dlodi plant, y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu darpariaeth gofal plant ddi-dor a fforddiadwy drwy'r cyllid canlyniadol Barnett y bydd yn ei gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr, a dylai nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hynny.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu darpariaeth gofal plant ddi-dor a fforddiadwy drwy gyllid canlyniadol Barnett y bydd yn ei gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr. Dylai nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hyn cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26.

### Fforddiadwyedd gofal plant

Mae adroddiadau diweddar wedi amlygu'r pwysau y mae costau gofal plant yn ei roi ar gyllidebau llawer o deuluoedd yng Nghymru. Fel y clywsom yn ystod ein hymchwiliad blaenorol, mae'r rhain yn arbennig o ddifrifol i deuluoedd â phlant o dan 3 oed. Amlinellodd cyfranwyr i'n grwpiau ffocws effaith costau gofal plant anfforddiadwy ar yrfaoedd menywod a phenderfyniadau teuluoedd ynghylch a ddylid cael plentyn arall. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym gan genhedloedd eraill yn dangos yn glir, gyda buddsoddiad ac ymrwymiad gwleidyddol hirdymor i fynd i'r afael â'r mater hwn, y gall dulliau gwell ddarparu'r gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel sydd ei angen ar deuluoedd.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu darpariaeth gofal plant gyffredinol dros y tymor hwy, ac yn ei hannog i weithio gyda'r sector ac eraill i ddatblygu cynigion uchelgeisiol ond realistig gyda llwybr i gyflawni hyn. Mae ehangu Dechrau'n Deg yn ddechrau da, ond mae angen eglurder ynghylch pryd y bydd cam 3 o hyn yn cael ei gyflawni ac mae angen blaenoriaethu dyraniadau yn y gyllideb i sicrhau bod teuluoedd ledled Cymru yn gallu elwa ar y cynllun cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 8.** Er mwyn mynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch fforddiadwyedd gofal plant, dylai Llywodraeth Cymru:

- Flaenoriaethu'r broses o gyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed drwy ddyrannu digon o gyllid i hyn gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl, gan osod targed ar gyfer y niferoedd a fydd yn elwa erbyn diwedd mis Mawrth 2026, a darparu adroddiad ar gynnydd i'r Senedd.
- Gweithio gyda'r sector i ddatblygu llwybr sy'n nodi camau yn y dyfodol i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, fel y mae cyllid a chyfyngiadau ymarferol eraill yn eu caniatáu. Nod hirdymor y llwybr hwn ddylai fod i weithio tuag at ddarparu darpariaeth gofal plant gyffredinol.

### Cynaliadwyedd y sector gofal plant

Mae'r sector gofal plant wedi amlinellu'n glir yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu. Yn fwyaf amlwg, canfu'r arolwg a gynhaliwyd yn gynharach eleni gan Blynyddoedd Cynnar Cymru nad oedd 28% o ddarparwyr yn hyderus y gallent gynnal y model ariannu presennol am flwyddyn arall, gyda'r cyllid o £5 yr awr ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ddim yn talu costau 94% o ddarparwyr.

Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i ni ei bod yn ymwybodol iawn o bryderon darparwyr ynghylch cyllid, a thynnodd sylw at yr angen am dystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau. Er ei bod yn amlwg y dylai'r dystiolaeth orau bosibl fod yn sail i bob penderfyniad gwario, mae cyflymder ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon a godwyd am annigonolrwydd cyfradd ariannu'r Cynnig Gofal Plant fesul awr yn peri pryder gwirioneddol i ni. Dylai flaenoriaethu datrys hyn ar frys, er mwyn rhoi sicrwydd i ddarparwyr a rhieni bod cynnydd mawr sylweddol sydd ei angen ar y ffordd, i sicrhau cynaliadwyedd y sector.

Mae'r argyfwng costau byw hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am fwy o hyblygrwydd wrth adolygu cyfradd ariannu fesul awr y Cynnig Gofal Plant. Nid yw darparwyr sydd wedi wynebu cynnydd sylweddol mewn costau fel biliau ynni a chyflogau dros y blynyddoedd diwethaf wedi gweld unrhyw gynnydd yn lefel y cyllid y maent yn ei dderbyn yr awr ers mis Ebrill 2022. Rydym yn rhannu syndod yr ymarferwyr y gwnaethom ymweld â nhw fod y gyllideb gofal plant wedi cael ei throsglwyddo i ariannu blaenoriaethau eraill ym mis Chwefror 2024 yn hytrach

na chefnogi lleoliadau mewn trafferth. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dull mwy hyblyg yn cael ei gyflwyno, sy'n adolygu'r gyfradd fesul awr bob blwyddyn ac yn ystyried sut y mae ffactorau fel chwyddiant a chostau cynyddol wedi effeithio ar ddarparwyr.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar frys i wella cynaliadwyedd ariannol y sector drwy:

- Wneud cyhoeddiad ar y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26 erbyn diwedd mis Hydref 2024. Yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth rydym wedi'i derbyn, rydym yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu’r cynnydd hwn.
- Symud i adolygiadau blynyddol o gyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant, a sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn yn cymryd ymagwedd hyblyg sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol megis chwyddiant, cyfraddau tâl a chynhyrchiant.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **256 Chwefror 2024** | **Sarah Coates, Rheolwr Gweithrediadau Cenedlaethol**<br>NDNA Cymru<br>**Dr David Dallimore, Ymchwilydd Polisi**<br>**Hayli Gibson, Pennaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chawrae**<br>Cyngor Sir Penfro<br>**Janet Kelly, Cadeirydd**<br>Sparkle<br>**Sarah Mutch, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>**Cheryl Salley, Cyfarwyddwr**<br>Meithrinfa Darling Buds<br>**Jane O'Toole, Prif Weithredwr**<br>Clybiau Plant Cymru |
| **29 Ebrill 2024** | **Naomi Eisenstadt, Cadeirydd**<br>Bwrdd Gofal Integredig GIG Swydd Northampton<br>**Martha Friendly, Cyfarwyddwr Gweithredol**<br>Uned Ymchwil ac Adnoddau Gofal Plant<br>**Maria Jürimäe**<br>Prifysgol Tartu<br>**Natalie MacDonald, Cyfarwyddwr Academaidd Cynorthwyol ar gyfer Plentyndod, Ieuenctid ac Addysg**<br>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>**Jane Malcolm, Rheolwr Gweithrediadau Cenedlaethol,**<br>National Day Nurseries Association yr Alban |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
| --- | --- |
| | **Christine Pascal, Cyfarwyddwr**<br>Canolfwn Ymchwil mewn Plentyndod Cynnar |
| **13 Mai 2024** | **Jayne Bryant AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Clare Severn, Pennaeth Polisi Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar**<br>Welsh Government |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CFU 01** | Dr David Dallimore |
| **CFU 02** | National Day Nurseries Association |
| **CFU 03** | Oxfam Cymru |
| **CFU 04** | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod |
| **CFU 05** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **CFU 06** | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **CFU 07** | CWLWM |
| **CFU 08** | Sefydliad Bevan |
| **CFU 09** | TUC Cymru |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Natalie MacDonald - Papur ysgrifenedig dilynol i'r sesiwn dystiolaeth | 10 Mai 2024 |